



Adeiladu dyfodol digidol Cymru



Mae ein cyfraniad at economi a gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn bwysicach nag erioed. Cyn y pandemig, roedd awdurdodau lleol a busnesau eisoes yn trafod sut i ddefnyddio technoleg i gysylltu pobl, a chefnogi cymunedau a busnesau. Ond mae ymateb ac addasu i ofynion Covid-19 wedi symblu cyrff a busnesau i fachu ar gyfleoedd technolegau digidol.

Rwy'n falch o'n hymateb i heriau'r blynyddoedd diwethaf, sydd wedi dangos pa mor bwysig yw cysylltiadau cyfathrebu a dylanwad technolegau digidol ar ein bywydau bob dydd. Drwy gydol y pandemig, rydym wedi gweithio i uno'r wlad, cysylltu anwyliad a hwyluso gweithio effeithiol a chynhyrchiol gan bobl i ffwrdd o'u gweithleoedd.

Erbyn hyn mae datblygiadau 5G yn cynnal trawsnewid digidol Cymru ac rydym yn elfen ganolog o'r broses honno. Byddwn yn parhau i wneud ymrwymadau hir

dymor uchelgeisiol er gyrru perfformiad 5G ymhellach a chyflymach, gyda'r nod o'i darparu ym mhob rhan o Gymru a'r Deyrnas Unedig erbyn 2028. Byddwn yn ymdrechu i bontio'r bwlch digidol, awdurdodi busnesau a chysylltu'r genedl. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi ein buddsoddiad yng Nghymru, gan bwysleisio effeithiau ein gweithgaredd o fewn y wlad wrth gyfrannu bron £1bn (£971m) at yr economi, cefnogi dros 12,000 swydd ar draws y wlad, a'n gwaith arloesol gyda phartneriaid drwy Gymru.

Yn y pen draw, bydd trawsnewid digidol yn allweddol er mwyn adfywio cymunedau sy'n dal i ddioddef effeithiau'r pandemig. Mae'r data eisoes ar gael; gallai buddsoddiad digidol roi hwb gwerth £230bn i economi'r Deyrnas Unedig dros yr 20 blynedd nesaf. Rydym wrthi'n creu sylfaen ddigidol yn seiliedig ar rannu gweledigaethau, gwaith, arbenigedd a thechnoleg. Bydd rhaid

datblygu partneriaethau cryf gydag amryw gyrff er esblygu gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Sam Toombs
Cyfarwyddwraig Gwerthiant
Cymru a De Orllewin Lloegr
Enterprise



Strategaeth ddigidol Cymru

Mae strategaeth ddigidol newydd Cymru yn amlinellu gweledigaeth i greu cenedl ddigidol fydd yn llewyrchus, cynhwysol, agored ac yn barod i groesawu syniadau arloesol newydd.

Technoleg yw'r allwedd i wneud hynny, gyda thechnolegau newydd yn ymuno â meysydd materol, digidol a biolegol, gan effeithio pob disgyblaeth, economi a diwydiant, a herio ein dulliau byw a gweithio.

Ar hyn o bryd, mae llawer o gyrff ar draws y wlad yn mabwysiadu atebion digidol unigol, gan ddefnyddio cydrannau gwahanol a diystyru syniadau a chyfleoedd rhanbarthol a chenedlaethol ehangach. Ar ben hynny, maent yn darparu technoleg heb gynnwys elfennau dynol, modelau busnesau neu ystyriaethau masnachol newydd.

Gyda chymorth ein harbenigedd ym meysydd technoleg ac adnoddau, gallwn ddarparu atebion digidol (dyfeisiadau, data, sgiliau a rhaglenni) yn gyflym ac ar lefel addas i chi. Atebion arloesol ar gyfer y dyfodol, mewn amryw feysydd.



Effaith economaidd BT yng Nghymru

£971 miliwn

Cyfanswm effaith GVA ar draws y wlad

4,660


Nifer y bobl mae BT yn cyflogi yn
uniongyrchol yng Nghymru

12,200

Nifer y swyddi cyfwerth amser llawn mae
BT yn cefnogi ar draws y wlad

**£340
miliwn**

Cyfanswm gwariant BT gyda
chyflenwyr Cymreig



Effaith economaidd yng Nghymru

Effeithiau rhanbarthol

	Gweithwyr & contractwyr BT Group			Cyfanswm effaith	
	Gweithio yn yr ardal	Byw yn yr ardal	Cyflogaeth	Cynnyrch £miliwn	GVA £miliwn
De ddwyrain	2,830	2,980	9,160	£1,180	£704
De orllewin	992	1,060	1,110	£185	£106
Gogledd	573	746	1,690	£228	£136
Canolbarth	213	267	217	£45	£26

Ffynhonnell: Hatch



Cysylltu Cymru wrth fuddsoddi mewn seilwaith

Rydym wedi ymrwymo i helpu cymunedau a busnesau Cymru ffynnu yn y byd digidol:

- Buddsoddi £3.7bn yn rhwydwaith y Deyrnas Unedig bob blwyddyn er mwyn ehangu, gwella ein darpariaeth a chysylltu pobl a chyrrff
- Adeiladu ein rhwydwaith yn benodol er mwyn osgoi defnyddio dros 50% o'r cynhwysedd, a'r unig rwydwaith i gynnig 99.999% darpariaeth. Nid yw ein rhwydwaith craidd wedi dioddef colled cysylltiad dros gyfnod o 13 blynedd
- Cynnal y rhwydwaith ffeibr mwyaf estynedig yng Nghymru, yn ymestyn o Gaergybi i Gaerdydd, a lleoliadau ar draws y wlad
- Rhaglen 5G EE yn lledu'n gyflym, gyda'r rhwydwaith eisoes yn gwasanaethu rhai trefi a dinasoedd, yn cynnwys Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe – ac yn dal i ehangu.

Mae chwyldro technolegol 5G yn cynnig cyfleoedd sylweddol i Gymru. Yn sgil rhaglen ffeibr cyflawn Openreach, erbyn hyn mae dros 400,000 cartref a busnes ar draws pob awdurdod lleol yn gallu archebu band eang ffeibr cyflawn, gyda miloedd eisoes yn mwynhau'r gwasanaeth cyflym a dibynadwy.

- Rhwydwaith 4G EE yn gwasanaethu 84% o Gymru ac yn darparu mwy o rwydweithiau 4G a 5G nag unrhyw gwmni arall, gyda mwy i ddod. Erbyn Mehefin 2024, bydd 123 lleoliad gwledig yng Nghymru yn destun uwchraddiad pellach i'w cysylltedd 4G
- RootMetrics wedi pennu EE fel rhwydwaith gorau'r Deyrnas Unedig am saith mlynedd o'r bron, a Mobile Choice wedi'i ddewis fel y rhwydwaith gorau am chwe blynedd yn olynol.

Gwaith arloesol BT yng Nghymru

Project Datgloi 5G Cymru

Mae 5G ar fin trawsnewid cysylltedd Cymru.

Ond er mwyn helpu 5G i drawsnewid bywydau pobl, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus, bydd angen symbylu'r sectorau cyhoeddus a phreifat i gydweithio ac arloesi. Hynny yw, ar draws cwmnïau telathrebu, y llywodraeth, diwydiannau technolegol a chwsmeriaid.

Fel y cwmni ffôn symudol cyntaf yn y Deyrnas Unedig i lansio gwasanaethau 5G yn 2019, erbyn hyn mae rhwydwaith 5G EE yn fyw mewn dros 160 lleoliad ar draws y

Deyrnas Unedig. EE yw'r unig gwmni gyda darpariaeth 5G dros 55% mewn unrhyw ddinas heddiw – yn cynnwys Caerdydd.

Dyna pam roeddem yn falch o ymuno â phroject Datgloi 5G Cymru fel y partner rhwydwaith symudol swyddogol. Rhan o'n hymrwymiad er helpu i ddeall potensial y dechnoleg newydd hon i drawsnewid meysydd fel trafndiaeth, twristiaeth a ffermio mewn ardaloedd gwledig a lled wledig. Bydd yn cynnig cyfleoedd i ymchwilio potensial 5G mewn ardaloedd gwledig a'i bwysigrwydd wrth helpu'r genedl i dyfu a ffynnu.



Ystafell ddosbarth 5G

Enghraifft wych o sut allai 5G wella addysg yng Nghymru.

Mae'n defnyddio dulliau dysgu arloesol, fel mapio gofodau mewn 360 gradd ar waliau ystafell a defnyddio profiadau'r byd real er mwyn cyfoethogi gwersi.

Bydd ystafelloedd fel hyn yn helpu i ddatblygu sgiliau hanfodol – meddwl

strategol, datrys problemau a chydweithredu. Ac yn cefnogi myfyrwyr gydag anawsterau dysgu wrth gynnig profiadau rhyngweithiol.

Bydd y safle cyntaf, yn ardal Glyn Ebwy, yn edrych i ysbrydoli myfyrwyr, hwyluso dysgu a chysylltu'r gymuned. Mae'r dechnoleg yn datblygu'n gyflym, gyda'r potensial i ehangu ar draws y wlad.



Cefnogi seilwaith critigol Cymru

Lansiwyd PSBA (Public Sector Broadband Aggregation) yn 2007 gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru ac o dan reolaeth BT. Mae'r project yn cysylltu cyrff sector cyhoeddus Cymru â rhwydwaith ardal eang (WAN), preifat a diogel ar draws y wlad.

Mae PSBA yn defnyddio gwasanaethau rhwydwaith arloesol, cost effeithiol a dibynadwy er mwyn helpu cyrff sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau effeithlon ar gyfer pawb. Erbyn hyn, mae PSBA wedi cysylltu dros 110 corff ar draws bron 5,000 safle, yn cynnwys mwy na 560 meddygfa.

Rhaglen LFFN

Mae PSBA yn gwella cysylltedd ar safleoedd sector cyhoeddus ar draws y wlad drwy gyfrwng rhaglen Rhwydwaith Ffeibr Cyflawn Lleol (Local Full Fibre Network – LFFN) Llywodraeth San Steffan.

Bydd rhaglen LFFN yn cefnogi awdurdodau, busnesau a phobl, gyda gwasanaethau gofal iechyd hanfodol fel Meddygfa Cadwgan, Conwy, yn elwa o wasanaethau band eang cyflym a dibynadwy.

Cyn gosod y Rhwydwaith newydd, roedd y staff yn wynebu nifer o broblemau cyfathrebu oedd

yn achosi rhwystredigaeth wrth geisio gwneud eu gwaith. Roedd y gwasanaeth araf yn gwastraffu amser clinigol a gweinyddol, yn achosi problemau i bobl yn gweithio i ffwrdd o'u safleoedd ac yn effeithio cynhyrchiant.

Gyda chymorth PSBA, ein band eang ffeibr diweddaraf a rhaglen LFFN, mae Meddygfa Cadwgan wedi taclo'r problemau cysylltedd. Mae'r cysylltiad cyflym a dibynadwy wedi hwyluso defnyddio'r apps a meddalwedd diweddaraf, llwytho cofnodion a delweddau cleifion yn syth, cynnal ymgynghoriadau fideo a chysylltu â'u systemau o bell.

Mae rhaglen LFFN wedi helpu'r feddygfa i wella gofal cleifion a chynhyrchiant drwy gydol pandemig Covid-19.



Ffyrdd eraill o gefnogi'r genedl

Partneriaethau rygbi & pêl-droed Cymru

Mae BT wedi bod yn brif noddwr rhanbarthau rygbi Cymru ers 2014. Fel rhan o'n cefnogaeth a buddsoddiad mewn clybiau rygbi, erbyn 2023 byddwn wedi noddi'r pedwar rhanbarth Cymreig – Caerdydd, Scarlets, Dreigiau a Gweilch – am naw tymor yn olynol. Mae ein partneriaeth wedi helpu i ailddiffinio rygbi yn y wlad, ynghyd â chefnogi cymunedau lleol.

Mae ein cytundeb gyda rhanbarthau rygbi Cymru wedi symblu buddsoddiad parhaus mewn gwaith cymunedol a phrojectau lleol, gan ganolbwyntio ar bwysleisio pwysigrwydd technoleg, arloesi a sgiliau digidol o fewn cymunedau ar hyd a lled y wlad.

Yn ogystal, rydym yn falch o fod yn brif bartner pob tîm pêl-droed dynion, menywod, datblygu ac anabledd Cymru tan 2024. Nod ein partneriaeth gyda Chymdeithas Pêl-droed Cymru yw cysylltu'r genedl ar bob lefel, yn arbennig wrth gefnogi datblygiad lefelau sylfaenol y gêm. Mae'r cytundeb yn rhan hanfodol o ymrwymiad y cwmni i gefnogi timau cenedlaethol y Deyrnas Unedig, a pharhau i fuddsoddi er cefnogi cymunedau a busnesau lleol.



Manifffesto ar gyfer y dyfodol

Yn 2021 cyhoeddodd BT ein manifffesto ar gyfer y degawd nesaf, gan amlinellu sut byddwn yn cefnogi technolegau cyfrifol, gweithio'n fwy cynhwysol a gwneud mwy i dacio'r newid hinsawdd. Ein nod yw defnyddio'r dyfodol digidol er lles cymaint o bobl â phosibl.

Cysylltwch â Rheolwr Cyfrif BT neu ewch i Enterprise – Group businesses – Our company | BT plc



Swyddfeydd byd-eang

Darperir y gwasanaethau a ddisgrifir yn y cyhoeddiad hwn yn amodol ar stociau a gellir eu newid o bryd i'w gilydd. Darperir gwasanaethau ac offer yn unol ag amodau contract safonol perthnasol British Telecommunications plc. Nid oes unrhyw beth yn y cyhoeddiad hwn yn ffurfio unrhyw ran o unrhyw contract.

© British Telecommunications plc 2022. Swyddfa gofrestredig:
1 Braham Street, London E1 8EE. Cofrestrwyd yn Lloegr rhif 1800000.

Chwefror 2022